

Profi rhaglenni

Term	Diffiniad
Strategaeth profi	Dogfen yw strategaeth profi sy'n nodi dull o brofi rhaglen feddalwedd.
Cynllun profi	Dogfen yw cynllun profi sy'n manylu ar gwmpas, dull, adnoddau ac amserlen y gweithgareddau profi sydd mewn golwg.
Coethi	Mae canlyniadau profion yn cael eu defnyddio i goethi neu wella ymarferoldeb rhaglen.

Profi

Mae'n hanfodol bod system yn cael ei phrofi i sicrhau ei bod yn perfformio yn ôl y gofyn. Mae amrywiaeth o strategaethau profi sy'n gallu cael eu defnyddio ond mae'n bwysig sylweddoli bod unrhyw gynllun profi effeithiol yn cynnwys profion sydd wedi'u cynnal wrth i'r cod gael ei ddatblygu, yn ogystal â phrofi'r system wedi'i chwblhau cyn iddi gael ei gweithredu'n llawn.

Rhaid cynllunio prawf-ddata i sicrhau bod y system yn cynhyrchu allbynnau cywir. Dylai'r prawf-ddata gynnwys data nodweddiadol, eithafol a gwallus. Rhaid profi pob agwedd ar y system yn llawn er mwyn sicrhau bod data anghywir yn cael eu gwrthod, a bod data cywir yn cynhyrchu canlyniadau cywir.

Mae datblygu rhaglennu modiwlau yn golygu bod modd datblygu rhannau ar wahân o'r rhaglen yn unigol a'u profi cyn i'r system gael ei rhoi at ei gilydd a'i phrofi. Wrth i'r gwaith datblygu barhau, mae modd gosod modiwlau at ei gilydd; mae profion pellach yn sicrhau bod y modiwlau'n gweithredu'n effeithiol gyda'i gilydd. Profion integreiddio yw enw'r profion hyn.

Term	Diffiniad
Data nodweddiadol neu safonol	Data sy'n gywir ac y dylai'r rhaglen eu prosesu'n gywir.
Data eithafol neu ymylol	Data sy'n gywir ond sydd ar ffin eithafol amrediad derbyniol o werthoedd.
Data gwallus	Data a fyddai'n achosi i'r rhaglen fethu os nad ydyn nhw'n cael eu dilysu a'u gwrthod.

Profi unedau

Profi unedau yw techneg profi sy'n golygu profi pob modiwl unigol o ddatrysiad wedi'i raglennu er mwyn sicrhau bod pob un yn gweithredu fel y dylai.

Profion integreiddio

Mae profion integreiddio yn lefel o brofion meddalwedd lle mae unedau unigol yn cael eu cyfuno a'u profi fel grŵp. Diben y lefel hon o brofion yw amlygu diffygion yn y rhyngweithio rhwng unedau integredig.

Profi system

Mae profi system yn lefel o brofi sy'n dilysu'r cynnyrch meddalwedd cyflawn a chwbl integredig. Diben prawf system yw gwerthuso manylebau'r system o'r dechrau i'r diwedd. Fel arfer, dim ond un elfen o system gyfrifiadurol fwy yw'r feddalwedd.

Profi derbyniad

Mae profi derbyniad yn lefel o brofion meddalwedd lle mae system yn cael ei phrofi am dderbynioldeb. Diben y prawf hwn yw gwerthuso cydymffurfiaeth y system â gofynion y defnyddiwr ac asesu a yw'n dderbyniol i'w gweithredu yn sefydliad y defnyddiwr.

Trosi

Mae trosi yn cyfeirio at weithredu system gyfrifiadurol newydd mewn sefydliad. Mae amryw o ddulliau y gellir eu defnyddio gan gynnwys:

- Uniongyrchol
- Paralel
- Peilot
- Fesul cam

Trosi uniongyrchol

Mewn trosi uniongyrchol, caiff y system newydd ei phrofi i sicrhau ei bod yn gweithredu'n gywir. Yna mae'n cael ei gosod yn lle'r hen system heb unrhyw orgyffwrdd rhwng y systemau. Mae'r dull hwn o drosi yn cael ei ddefnyddio fel arfer pan fo'r risg o golli data yn isel neu os oes gan y system newydd lawer o swyddogaethau ychwanegol sydd eu hangen ar y sefydliad.

Trosi paralel

Mewn trosi paralel, mae'r hen system a'r system newydd yn cael eu rhedeg ochr yn ochr â'i gilydd. Mae'r un data'n cael eu cynnwys yn y ddwy system, gan gynhyrchu dwy set o ganlyniadau. Unwaith y bydd y sefydliad yn hyderus y bydd y system newydd yn caniatáu i'r busnes weithredu yn ôl y gofyn, bydd yr hen system yn cael ei dileu.

Trosi peilot

Mewn trosi peilot, mae'r system newydd yn cael ei chyflwyno mewn un rhan o'r busnes i ddechrau, fel un gangen o gadwyn o siopau. Unwaith y gwelir bod y system yn gweithredu'n gywir, bydd yn cael ei chyflwyno ym mhob rhan o'r sefydliad.

Trosi fesul cam

Mewn trosi fesul cam, mae rhannau o'r system yn cael eu rhoi ar waith ar wahanol adegau. Pan fydd pob rhan o'r system wedi'i phrofi'n drylwyr, bydd rhan nesaf y system yn cael ei chyflwyno.